



CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Paratowyd y cynllun hwn ar sail y canllawiau a gynhwysir yn y dogfennau canlynol a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg:

'Cynlluniau Iaith Gymraeg' (1996).

'Atodiad i'r Llawlyfr "Cynlluniau Iaith Gymraeg" ar gyfer Colegau Addysg Bellach ac Uwch' (1998)

Cynnwys

Cyfeirnod Paragraff	Eitem	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Gweithredu'r Egwyddor o Gydraddoldeb	8
3	Asesu Effaith Ieithyddol Datblygiadau Newydd	8
4	Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg	9
5	Safonau Ansawdd	13
6	Cyfathrebu â'r cyhoedd	14
7	Hunaniaeth Gorfforaethol y Coleg	16
8	Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd	17
9	Galluogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.	19
10	Trefniadau Gweinyddol ar gyfer Hwyluso'r Cynllun	21
11	Trefniadau Trydydd Parti	22
12	Arolygu Gweithredu'r Cynllun	23
13	Sicrhau Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	25
	Cynllun Gweithredu'r Mesurau	27

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae hwn yn Gynllun Iaith Gymraeg a baratwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.2 Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Coleg Morgannwg ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 (1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg ar Chwefror 20 2006
- 1.3 Mae Coleg Morgannwg wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Coleg yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.4 **Cefndir Coleg Morgannwg**

Cyfunwyd colegau Aberdâr a Phontypridd ar Ionawr 1^{af} 2003 i ffurfio Corfforaeth Coleg Morgannwg. Mae'r Coleg cyfunedig newydd, dan enw newydd, yn anelu at fod yn gorff unedig, modern fydd yn darparu, yn effeithlon ac yn effeithiol, y cyfleoedd dysgu gorau posibl i unigolion, cymunedau a diwydiant ar sail deg ledled Rhondda Cynon Taf. Mae cyrchu'r nod hwn yn golygu gweithio ar y cyd. Bydd y Coleg felly, yn parhau i fod yn gorff sy'n ceisio partneriaethau a bydd yn cynllunio, gydag eraill, fel y bydd strategaethau uchelgeisiol y Cyngor Cenedlaethol, drwy weithredu ystyriol ac unedig, yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn yr ardal.

Bydd y Coleg yn parhau'r polisi o gynnig cwricwlwm cyflawn sy'n ymgorffori cyfleoedd cychwyn dysgu ynghyd â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau uwch, technegol a phroffesiynol.

Mae'r Coleg yn ymestyn dros bedwar safle, Aberdâr, Pontypridd, Y Rhondda a Nantgarw, y cyfan o fewn dalgylch awdurdod unedol Rhondda Cynon Taf, ac ar ben hynny yn cynnig darpariaeth dysgu mewn dros 80 o ganolfannau allanol o fewn y cymunedau lleol. Mae sawl campws hefyd wedi derbyn gwobrau am arferion da ac arfer eithriadol. Mae'r Coleg yn un o Golegau Achredig Prifysgol Morgannwg. Mae'r cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn dda, gyda'r cyfan o'r pedwar safle yn agos at yr A470, ac felly'n gyfleus ar gyfer Caerdydd a'r M4.

Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn cyflogi tua 600 aelod o staff ac yn ymrestru 12000 o fyfyrwyr.

Lleoliad

Campws Aberdâr

Mae'r campws yn Aberdâr yn cynnig ystod eang o gyrsiau ar ei brif safle yng Nghwmdâr ac yn ogystal ceir canolfannau allanol yn Aberdâr. Yn ddiweddar mae'r campws wedi buddsoddi mewn meysydd newydd fel gwaith plymwr, trin gwallt a therapi harddwch sy'n adeiladu ar yr enw da sydd gan y campws hwn eisoes ym maes lletygarwch ac arlwyo. Ceir cyfleusterau gofal plant ar y campws ym Meithrinfa First Steps.

Cydnabyddir bod gan y campws ffocws cymunedol cryf sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ym mhob un o ardaloedd Cwm Cynon i ailgydio mewn dysgu a chynnig rhaglenni ar bob lefel o gyrsiau rhag-fynediad a chyrsiau canolradd ac uwch AB hyd at raglenni addysg uwch. Mae tua 50 o ddisgyblion yn mynychu'r campws o Gonsortiw Cynon .

Campws Pontypridd

Mae'r campws yn Rhydyfelin yn agos at ffordd gyswllt brysur yr A470 gan ei wneud yn hawdd i'w gyrraedd. Cynnig ystod eang o gyrsiau ar bob lefel yma o gyrsiau rhag-fynediad drwy gyrsiau canolradd ac uwch AB hyd at raglenni addysg uwch .

Campws Y Rhondda

Mae wedi ei leoli yn Llwynypia, milltir o Donypandy yn Y Rhondda Fawr ac yn hawdd i'w gyrraedd o'r orsaf drenau leol. Mae'r campws yn cynnig ystod eang o gyrsiau addysg bellach ac uwch ac yn ddiweddar, mae wedi buddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer y celfyddydau perfformio a'r cyfryngau newydd. Mae gan y campws enw da iawn ym maes Gofal a Gofal Plant, Mynediad Galwedigaethol a Thrin Gwallt ac yn ddiweddar mae adnoddau'r salon trin gwallt wedi eu diweddarau. Mae awyrgylch gyfeillgar yno gyda digonedd o gyfleoedd ar gyfer trigolion y gymuned leol i ail gysylltu â byd dysg ac mae'n cynnig rhaglenni ar bob lefel o gyrsiau rhag-fynediad, drwy gyrsiau canolradd ac uwch AB hyd at raglenni addysg uwch mewn Gofal Plant. Mae tua 30 o fyfyrwyr ysgol yn mynychu'r campws hwn ar gyfer opsiynau galwedigaethol o Gonsortiw Y Rhondda .

Campws Nantgarw

Mae'r campws gwych hwn, sydd wedi ei leoli yn Nantgarw, drws nesaf i Sinema'r Showcase, yn cynnig cyfleusterau ardderchog mewn hyfforddiant aerofod, adeiladu, peirianeg a chyrsgiau Addysg uwch mewn Harddwch a Therapiau Ategol. Fis Hydref 2008, cwblhawyd adeilad newydd ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Yn ogystal â'r campysau eraill mae'r ganolfan yn cynnig cyfleusterau helaeth ar gyfer cyflogwyr.

1.5 **Cyd-destun Cymdeithasol**

Rhondda Cynon Taf

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio yn 1996 a dyma'r awdurdod unedol ail fwyaf yng Nghymru o safbwynt poblogaeth gyda 241,000 o bobl yn byw yn yr ardal. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd at Gaerdydd yn y de. Prif ardaloedd y boblogaeth yw Pontypridd, Aberdâr, Tonypany, y Porth, Aberpennar a Thonyrefail.

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion diwylliannol ac economaidd gymdeithasol gyda lefelau uchel o dlodi cymharol ac eithrio cymdeithasol, yn enwedig yng ngogledd y cymoedd sydd â rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Gyfunol.

Hyd at y dirwasgiad economaidd presennol, roedd yr economi'n cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, mae gan ardal Rhondda Cynon Taf nifer sylweddol is o bobl sydd yn meddu ar gymwysterau lefel uchel: mae 12% o oedolion yng Nghymru â chymwysterau lefel uwch; yn RhCT tua 8% yw'r canran; yn ward Penywaun yng Nghwm Cynon mae'r rhif cyn ised ag 1.7%. Gan RhCT hefyd mae'r raddfa isaf yng Nghymru o oedolion heb gymwysterau; mae hyn yn cynrychioli tua 35,000 o oedolion heb gymwysterau.

Mae cymunedau RhCT ar wahanol gamau o ddatblygiad; mae gan rai ardaloedd lefelau uchel o gymryd rhan mewn dysgu gydol oes (e.e. Penywaun) tra bod eraill yn wan iawn yn y maes hwn (e.e. Glyncoch).

Dydy RhCT ddim yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru na gweddill y DU wrth ystyried lefel gweithgarwch y boblogaeth sy'n gweithio.

1.6 **Darpariaeth**

- 1.6.1 Mae Coleg Morgannwg yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth o gyrsgiau llawn amser, rhan amser a chyrsgiau dysgu agored. Mae pob maes cwricwlwm a gyllidir gan APADGOS, ar wahân i ddiwydiannau'r tir, yn cael eu cynnig rhwng y

gwahanol ganolfannau. Mae ystod y ddarpariaeth yn ymestyn o gyrsiau lefel Mynediad hyd at rai ar lefel 4 gyda chyfran sylweddol o waith mewn Addysg Uwch yn arbennig Celf a Dylunio, Harddwch a Therapiau Ategol, Gofal Plant, Technoleg a Hyfforddiant Athrawon, Cafwyd y twf cyflymaf ers 2000/2001 mewn ymrestrïadau ar gyfer lefel Mynediad a lefel 2.

Mae 25% o'r ymrestrïadau cyfredol yn fyfyrwyr dan 19 oed. Mae'r Coleg yn cynnig darpariaeth Addysg Gyffredinol lawn amser yn Rhydyfelin er bod gan bob un o'r ysgolion uwchradd lleol chweched dosbarth. Trefnir rhaglenni cydweithrediadol mewn addysg alwedigaethol ac addysg gyffredinol gyda phob ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr o 14 - 19 oed. Mae'r Coleg yn aelod o nifer o rwydweithiau sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth hon.

Mae'r Coleg yn darparu cefnogaeth helaeth i fyfyrwyr drwy'r Canolfannau Cymorth Dysgu a thrwy'r tîm Mynediad Galwedigaethol. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys cymorth dysgu ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau prif ffrwd, cymorth iaith, rhaglenni sgiliau sylfaenol a chymorth i fyfyrwyr gyda nam corfforol/synhwyraidd ac anghenion arbennig eraill.

1.6.3 Partneriaethau

Mae'r Coleg yn rhan o ystod o bartneriaethau sy'n cyfoethogi ac yn rhoi cymorth i ddatblygu darpariaeth. Bro Dysg yw'r bartneriaeth strategol sy'n gyfrifol am ddysgu cyn ac ôl 16 yn Rhondda Cynon Taf. Bwriad y bartneriaeth yw datblygu fframwaith dysgu gydol oes effeithiol yn RhCT. Mae Bro Dysg yn datblygu partneriaethau, codi disgwyliadau, hybu cyfanwydd y ddarpariaeth ac ymateb gwell i anghenion lleol, tra'n sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol mewn parch ac ymdriniaeth ar gyfer hyfforddiant academiaidd, galwedigaethol ac yn y gweithle. Mae'r bartneriaeth hon bellach wedi derbyn cyfrifoldeb am yr holl ddysgu cyn ac ôl 16 a bydd yn gweithio i greu rhagor o bartneriaethau dysgu y gall pobl eu cyrchu ar wahanol gyfnodau yn eu bywyd. Mae Bro Dysg wedi bod o help yn gwella'r cysylltiadau rhwng Coleg Morgannwg a darparwyr yn RhCT

1.6.4 Darpariaeth yn y Gymuned

Mae darpariaeth Cymraeg yn y gymuned yn cael ei chyflenwi gan Brifysgol Morgannwg a chynhelir rhai o'r cyrsiau ar Gampws y Coleg yn Y Rhondda.

1.6.5 Y Dimensiwn Cymreig

Yn ôl ffigurau cyfrifiad 1991, ganwyd 91.1% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf yng Nghymru a bod 9.0% yn siarad Cymraeg (o'i gymharu â ffigwr Cymru Gyfan o 18.7%). Mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi i 89.9% o'r boblogaeth gael eu geni yng Nghymru a bod 12.3% yn siarad Cymraeg o'i gymharu â'r ffigwr o 20.8% ar

gyfer Cymru gyfan). Mae hwn yn gynydd o 3.3 pwynt canran (o'i gymharu â chynydd o 2.1% ar gyfer Cymru gyfan). Mae 18.9% o blant oed statudol ysgol y sir yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg

Yng Ngholeg Morgannwg mae gan 50% o'r staff academiaidd beth gwybodaeth o'r iaith Gymraeg. Rydyn ni'n cynnal arolwg newydd o'r staff ar gyfer 2008/2009.

Yr unig gwrs cyfredol sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ydy cwrs NVQ mewn Gweinyddu Busnes a gyflenwir o fewn y Consortiwm Cyfrwng Cymraeg 14-19.

Er y gall y Coleg ddarparu deunyddiau addysgu yn y Gymraeg a chymorth i'r myfyrwyr hynny, ni all ddarparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y rheswm am hyn ydy mai isel ydy'r galw amdano. Fodd bynnag, mae darpariaeth Bagloriaeth Cymru yn hyrwyddo diwylliant Cymru o fewn ei gyflenwad. Mae grŵp staff Dwyieithrwydd yn gyfrifol am ddatblygu ymateb y Coleg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg ac yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Coleg hefyd yn gweithredu i gynorthwyo Cynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg gysylltiadau â'r sefydliadau canlynol sy'n ymwneud â datblygu'r iaith Gymraeg:

- a) Grŵp Cymraeg De-ddwyrain Cymru - a ffurfiwyd gan 7 coleg y de-ddwyrain i gydweithio ar faterion Cymraeg
- b) Addysg Gymunedol RhCT (CiO)
- c) Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (Gwefr Gwaith)
- ch) Menter Iaith
- e) Sgiliaith – yn gyfrifol am hybu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sector Addysg Bellach
- f) MYM – Mudiad Ysgolion Meithrin
- g) Consortiwm Cymraeg i Oedolion

1.7 **Nodau ac Amcanion Iaith Gymraeg**

Mae'r Cynllun Strategol cyfredol yn cynnwys amcanion yn ymwneud â darpariaeth iaith Gymraeg.

- a) I weithredu targedau cwricwlwm y Cynllun Iaith Gymraeg. (*Amcan 1.3*)
- b) I sefydlu'r Coleg fel canolfan addysg alwedigaethol ddwyieithog (*Amcan 5.3*)
- c) I sicrhau cnewyllyn o staff i gwrdd ag anghenion y Cynllun Iaith (*Amcan 7.6*)

1.8 Am ragor o wybodaeth am y cynllun hwn cysylltwch â:

Mr Hywel Vaughan

Campws Nantgarw

Heol yr Odyn, Parc Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QX

E-bost: h.vaughan@morgannwg.ac.uk
01443 663566

2. Gweithredu'r Egwyddor o Gydraddoldeb

- 2.1 Wrth i'r Cynllun Iaith Gymraeg gael ei weithredu bydd y Coleg yn sicrhau ei fod cadw at yr egwyddor o gydraddoldeb a gynhwysir yng ngofynion Deddf yr Iaith 1993.
- 2.2. Mae'r gwasanaethau presennol ar gael yn Gymraeg yn cynnwys llawlyfr myfyrwyr a ffurflenni ymrestru a cheisiadau am grant.

3. Asesu Effaith Ieithyddol Datblygiadau Newydd

- 3.1 Bydd y Coleg yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau newydd sy'n debyg o effeithio ar y Cynllun, ac ni fydd y Coleg yn diwygio cynnwys y Cynllun heb gytuno â'r Bwrdd ymlaen llaw. Bydd pob polisi a menter newydd yn gyson â'r cynllun ac ni fyddant yn ei danseilio.
- 3.2 Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd datblygiadau newydd yn mynd â'r Coleg yn raddol nes at gydraddoldeb llawn ar bob cyfle.
- 3.3 Bydd y Coleg yn asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiau neu fentrau newydd gyda golwg ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bo modd.

Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd pob ymgynghorydd neu aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ffurfio polisi yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith a chyfrifoldebau'r Coleg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Bydd y staff i gyd yn derbyn sesiynau briffio i godi eu hymwybyddiaeth o'r Cynllun a chael gwybod am eu cyfrifoldebau. Fe roddir gwybodaeth am y cynllun ar dudalennau mewnwyd y staff.

(Targed: 2008/09)

Bydd y Coleg hefyd yn sicrhau bod pob mesur a gynhwysir yn y cynllun yn cael ei gymhwyso i bolisiau a mentrau newydd wrth iddynt gael eu gweithredu.

(Targed: 2008/09)

4. Darparu Gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

- 4.1 Bydd y Coleg yn cynnal arolwg iaith Gymraeg er mwyn creu rhestr o staff dwyieithog a fydd yn hysbys i staff a myfyrwyr fel ei gilydd. **(Targed:2008/09)**
- 4.2 Bydd y Coleg yn nodi yn ei gyhoeddiadau yr adrannau hynny lle mae siaradwyr Cymraeg ar gael. **(Targed: 2008/09)**
- 4.3 Gan ddilyn yr arolwg staff dwyieithog, bydd y Coleg yn canfod yr aelodau hynny o staff sy'n teimlo yn ddigon hyderus i ymuno â thîm i ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.
- 4.4 Cynigir cyfle i ennill credydau drwy asesiadau unedau iaith CGC (NVQ) i'r staff sydd eisoes â sgiliau ieithyddol. Bydd y rhai sydd â rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg ond heb yr hyder i weithio yn ddwyieithog yn cael cynnig y cyfle i wella'u sgiliau cyfredol drwy wneud cais am fynychu'r Cynllun Sabothol Cymraeg.

Amserlen ar gyfer Arolwg a Datblygiad Staff

Blwyddyn	Ymwybyddiaeth Iaith	Cwblhau Arolwg	Cynhyrchu Rhestr Staff	Cyhoeddi Mewnol	Cyhoeddi Allanol	Darparu Gwasanaethau	Achredu Staff
2008/09	X	X	X	X		X	X
2009/10				X	X	X	X
2010/11				X	X	X	X

- 4.5 Bydd y Coleg yn cynnig elfen o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw fyfyrwr sy'n ei ddymuno drwy gynnig y canlynol lle bynnag bo hynny'n bosibl o fewn cyfyngiadau'r Coleg:
- 4.5.1 derbyn gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg
- 4.5.2 cynnig elfennau penodol o'r cwrs neu'r modiwl drwy'r Gymraeg
- 4.5.3 profiad gwaith mewn amgylchedd Cymraeg ei iaith
- 4.5.4 darparu nodiadau dwyieithog gan gynnwys y derminoleg
- 4.5.5 cynnig dosbarthiadau Cymraeg i gynorthwyo pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg.
- 4.5.6 Asesiadau, cyfweiliadau mynediad, a chymorth tiwtorial drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Mr Hywel Vaughan, Prifathro Cynorthwyol, yn monitro'r uchod.

- 4.10 Bydd y Coleg yn cydweithio gyda Sgiliaith ac aelodau Grŵp Polisi Iaith De Ddwyrain Cymru i hwyluso a hyrwyddo darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog drwy, a lle bynnag posibl:

- 4.10.1 Gynnig cyfarwyddyd yn Gymraeg i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n astudio cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg.
 - 4.10.2 Cyfrannu at gynhyrchu tasgau asesu trwy gyfrwng y Gymraeg
 - 4.10.3 Annog a chynorthwyo anghenion hyfforddi staff yn yr iaith Gymraeg drwy gynnig cyrsiau Cymraeg fel rhan o raglen datblygiad staff. Anogir staff sydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.
 - 4.10.4 Cynnig cyngor Gwasanaethau Myfyrwyr yn y Gymraeg
 - 4.10.5 Rhannu myfyrwyr ar gyrsiau lle mae ymrestriadau unigol y Coleg yn isel
 - 4.10.6 Darparu profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg drwy gysylltu â'r byd busnes Cymraeg (e.e. Cwlm) ac asiantaethau gyrfaal
-
- 4.11 Bydd y Coleg yn sicrhau bod myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gallu cael mynediad i'r holl wasanaethau a gynigir yn 4.8 uchod drwy ymestyn Polisi Cyfleoedd Cyfartal y Coleg, Datganiad Anabledd y Coleg a Siarter Myfyrwyr y Coleg i gynnwys y Cynllun hwn.
 - 4.12 Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn ymwybodol o'r angen am sgiliau dwyieithog ac o unrhyw fantais sy'n deillio o hynny drwy hysbysebu'r gwasanaethau a gynigir gan y Coleg a Sgiliaith a thrwy gynhyrchu cyflwyniad ar ymwybyddiaeth o iaith i'w roi mewn sesiynau sefydlu neu diwtorialau.

5. Safonau Ansawdd

- 5.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth asesu a mesur safon ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a'r ddarpariaeth Gymraeg, bydd y Coleg yn defnyddio'r union 'ddangosyddion perfformiad' ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau a darpariaeth yn yr iaith Saesneg.
- 5.2 Bydd y Coleg yn datgan ei ymrwymiad i sicrhau safonau ieithyddol cyfartal rhwng ei ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg yn ei gynlluniau corfforaethol, ei adroddiad blynyddol, ei brosbectws, a'r holl lenyddiaeth hyrwyddo.
- 5.3.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i osod safonau penodol ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg ar draws ei safleoedd i gyd wrth ddarparu gwasanaethau sy'n delio â'r cyhoedd, a bydd yn adolygu'r safonau a'u gweithrediad. Cyfrifoldeb y Tîm Dwyieithrwydd fydd gweithredu'r adolygiad. Bydd y tîm yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro'r gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg. Byddan nhw'n sicrhau bod staff y Coleg yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiad. Rheolwyr Cwricwlwm a rheolwyr gweithredol fydd yn gyfrifol am annog datblygiad sgiliau Cymraeg eu staff.

6. Cyfathrebu â'r Cyhoedd

6.1 Gohebiaeth ysgrifenedig.

- 6.1.1 Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 6.1.2 Bydd y Coleg yn ymateb yn Gymraeg i llythyrau a ysgrifennir yn Gymraeg. Bydd ymatebion yn Gymraeg yn gaeth i'r un dangosyddion perfformiad â'r rhai a ysgrifennir yn Saesneg.
- 6.1.3 Ni fydd gohebu yn Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- 6.1.4 Bydd llythyrau oddi wrth y Coleg yn dilyn sgwrs yn Gymraeg (naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) yn cael eu hysgrifennu yn Gymraeg.
- 6.1.5 Bydd y Coleg yn gohebu yn Gymraeg â'r rhai y byddai'n well ganddyn nhw wneud hynny.
- 6.1.6. Bydd y Coleg yn sicrhau y cyhoeddir llythyrau safonol a gynhyrchir yn ganolog ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Rhoddir canllawiau i bob rhan o'r Coleg yn dangos gofynion ar gyfer llythyrau o'r fath.

Mae'n bosibl na fydd Cylchlythyrau, fel cylchlythyr yr Adran Farchnata, yn gwbl ddwyieithog. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, fe gynhwysir darnau yn Gymraeg yn amlinellu gwasanaethau Cymraeg y Coleg.

- 6.1.7 Caiff llythyru electronig ei drin yn yr un ffordd â llythyru traddodiadol.
- 6.1.8 Bydd y Coleg yn sefydlu cronfa ddata o'r bobl neu'r sefydliadau hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.1.9 Bydd y Coleg yn agor gohebiaeth ffurfiol yn ddwyieithog â'r rhai hynny nad yw eu dewis iaith yn hysbys.

6.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- 6.2.1 Mae croeso i bawb sy'n ffonio Coleg Morgannwg siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl ei (d)dewis. O ran cwrteisi, ac er mwyn dangos i alwyr ffôn y cynigir dewis iaith, bydd staff (gweinyddol ac academiaidd ill dau) yn ymateb i alwadau allanol gyda chyfarchiad dwyieithog byr

'Bore da / Good morning'

'Prynhawn da / Good afternoon'

- 6.2.2 Os bydd galwr yn siarad yn Gymraeg ond yr aelod o staff sy'n ymateb heb fod yn gallu siarad Cymraeg, bydd e/hi yn esbonio na all gyfathrebu yn Gymraeg a chynnig dewis i'r galwr: trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, parhau gyda'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig yn Gymraeg. I gyflawni hyn mae'n fwriad gan y Coleg i gynnal peilot o achlysur datblygiad staff gwasanaethau rheng flaen "Cymraeg ar gyfer y Gweithle" RhCA, yn 2008/09 i ddechrau.
- 6.2.3 Er mwyn hwyluso'r trefniadau uchod, bydd y Coleg yn creu rhestr o aelodau o staff gweinyddol ac academiaidd sydd â'r gallu i ddelio ag ymholiadau ffôn yn Gymraeg. Caiff y rhestr hon ei chynnwys mewn cyhoeddiadau a gynhyrchir yn ganolog ac yn llyfr ffôn mewnol y Coleg.
- 6.2.4 Bydd pob neges wedi'i recordio ar beiriannau ateb y Coleg yn ddwyieithog, a bydd yr amser targed i ymateb i ymholiadau ffôn Cymraeg yr un â rhai ar gyfer galwadau yn Saesneg.

6.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 6.3.1 Bydd y Coleg yn cyhoeddi bod croeso i aelodau o'r cyhoedd gyfathrebu â'r Coleg yn Gymraeg neu yn Saesneg er bod cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd dwyieithog llawn yn gyfyngedig ar hyn o bryd ac yn berthnasol i gyfarfodydd cyffredinol blynyddol yn unig. Fodd bynnag, fe gaiff hyn ei ddatrys drwy weithrediad y Cynllun.
- 6.3.2 Bydd pob agenda, gwahoddiad, gwysiad neu hysbyseb i gyfarfodydd o'r fath yn ddwyieithog a bydd yn cynnwys nodyn yn hysbysu'r cyhoedd bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod ac yn gofyn iddyn nhw hysbysu'r trefnydd ymlaen llaw ynglŷn â pha iaith y dymunen nhw ei defnyddio yn y cyfarfod.
- 6.3.3 Bydd staff sy'n gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny mewn cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn gwneud i'r rhai sy'n mynychu, ac sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg, deimlo'n gartrefol, ac er mwyn hybu dwyieithrwydd naturiol mewn cyfarfodydd o'r fath. Er mwyn hwyluso hyn, bydd y swyddogion uchod yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' i ddangos y gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu eu bod yn dysgu Cymraeg.

6.4 Cyfarfodydd Eraill

- 6.4.1 Bydd y Coleg yn annog aelodau o'r staff sy'n gallu sgwrsio yn Gymraeg i wisgo bathodyn sy'n dweud hynny mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (mewn noson agored neu noson i rieni er enghraifft). Bydd y Coleg yn rhoi rhybudd ymlaen llaw bod aelodau dwyieithog o'r staff ar gael i gynnal trafodaethau wyneb yn wyneb.

- 6.4.2 Mae croeso i unrhywun sy'n dymuno cynnal cyfarfodydd preifat neu un-i-un â'r Coleg wneud hynny naill ai yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y Coleg felly yn cymryd pob cam ymarferol posibl i gynnig dewis iaith bob tro y trefnir cyfarfod.
- 6.4.3 Lle bydd y Gymraeg yn ddewis gyfrwng, gwneir trefniadau gydag aelod priodol o'r staff Cymraeg eu hiaith. Os na fydd siaradwyr Cymraeg ar y staff yn yr adran briodol, fe esbonnir y sefyllfa i'r unigolyn a gaiff ddewis: cynnal y cyfarfod yn Saesneg neu gyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig yn Gymraeg.
- 6.4.4 Drwy gynnig dewis iaith, mae'r Coleg yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, bod galluogi unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith yn arfer dda yn hytrach na chonsesiwn a bod gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith yn gallu gosod unigolion dan wir anfantais.

Mae'r mesurau uchod yn berthnasol i bob math o gyfarfodydd nad ydyn nhw'n rhai cyhoeddus

6.5 Delio â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill

- 6.5.1 Bydd y Coleg yn dilyn yr un canllawiau â'r rhai yn 6.3.1 a 6.4.1 uchod mewn sefyllfaoedd lle y defnyddir dulliau eraill o gyfathrebu ar lafar megis cysylltiadau fideo neu systemau uchelseinyddion.
- 6.5.2 Bydd y Coleg yn sicrhau yr ychwanegir tudalennau Cymraeg at ei wefan. Bydd yr hafan ac unrhyw dudalennau sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth Gymraeg ar gael o ddechrau'r Cynllun. Bydd gweddill y tudalennau sy'n delio â gwasanaethau ar draws y Coleg wedyn ar gael yn ddwyieithog wrth fynd ymlaen, gan ddechrau gyda'r rhai a ddefnyddir amlaf. Gall tudalennau sy'n disgrifio cyrsiau unigol a ddysgir drwy gyfrwng y Saesneg yn unig aros yn Saesneg yn unig.

7. Hunaniaeth Gorfforaethol y Coleg

7.1 Cyffredinol

- 7.1.1 Bydd hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus y Coleg yn ddwyieithog. Felly defnyddir fformat dwyieithog i gyfleu ei hunaniaeth gorfforaethol ar arwyddion, mewn cyhoeddiadau ac yn enwau ei wasanaethau; cyfeiriadau ei swyddfeydd; ei logo; ei arwyddair corfforaethol; penawdau ei lythyrau; ei gardiau busnes, papur ffacs, bathodynau adnabod, slipiau cyfarchion, 'llofnodion' e-bost a'r holl ysgrifen gorfforaethol o fewn ei adeiladau.
- 7.1.2 Bydd deunyddiau safonol eraill sy'n cynnwys enw a logo'r Coleg, megis llythyrau, cerbydau, papur ffacs, cardiau busnes a bathodynau, hefyd yn ddwyieithog.

7.2 Arwyddion Gwybodaeth o fewn Ffiniau'r Coleg

- 7.2.1 Bydd pob arwydd gwybodaeth newydd neu arwydd sydd wedi'i adnewyddu o fewn ffiniau eiddo'r Coleg yn ddwyieithog ym mhob man lle mae mynediad i'r cyhoedd.
- 7.2.2 Bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau yn y ddwy iaith yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.
- 7.2.3 Pan gaiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu harddangos ar wahân, bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau yn y ddwy iaith hefyd yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb
- 7.2.4 Pan gynhyrchir arwyddion y tu allan i'r Coleg, anfonir y cynnwys mewn fformat prosesydd geiriau i sicrhau sillafiad cywir.

7.3 Arwyddion Gwybodaeth Gyhoeddus Eraill

- 7.3.1 Bydd arwyddion gwybodaeth yng Nghymru a leolir y tu allan i ffiniau'r coleg, ond sydd yn dal i ddod o dan gyfrifoldeb y Coleg, hefyd yn ddwyieithog.

8. Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd

- 8.1 Oherwydd natur adnoddau'r Coleg fe ddefnyddir dull detholus ynglŷn â pha ddogfennau a gynhyrchir mewn fformat dwyieithog. Fodd bynnag, fe gynhyrchir gwybodaeth gyffredinol a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog, naill ai fel dogfen ddwyieithog sengl neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gyda rhagdybiaeth o blaid dogfen ddwyieithog sengl. Pan gynhyrchir dogfennau ar wahân, bydd y Coleg yn sicrhau yr hysbysebiri y ddwy yn yr un ffordd, a bod cyflenwad teg o'r ddwy ar gael. Bydd y Coleg hefyd yn gweithio ar yr egwyddor y dylid defnyddio'r iaith Gymraeg i hysbysebu'r holl wasanaethau hynny y gall y Coleg eu darparu yn Gymraeg, ac y dylid nodi'r fath wasanaethau ym mhob un o'i brif gyhoeddiadau, megis prospectws y Coleg, waeth pa brif iaith a ddefnyddir. Hysbysebiri manylion cyrsiau unigol yn yr un iaith â'r cyfrwng dysgu
(Targed: 2008/09)
- 8.2 Ni fydd cost fersiwn Cymraeg unrhyw ddogfen yn uwch na chost y fersiwn Saesneg. Yn ogystal, bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn dweud bod y ddogfen hefyd ar gael yn yr iaith arall.
(Targed: 2008/09)
- 8.2.1 Bob tro y cyhoeddir dogfennau dwyieithog wedi'u prisio, ni fydd y pris yn uwch na fersiwn uniaith o'r un ddogfen.
(Targed:2008/09)

8.2.2. Bob tro y cyhoeddir fersiynau Cymraeg o ddogfennau, codir yr un pris amdanyn nhw â'r fersiwn Saesneg. **(Targed: 2008/09)**

8.3 Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn derbyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog. Bydd y rhain yn cynnwys Canllawiau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg. **(Targed: 2008/00)**

8.4 Bydd y Coleg yn darparu mathau eraill o ddeunyddiau wedi'u hargraffu yn ddwyieithog, e.e. posteri, cardiau, amserlenni, anfonebau a sieciau. **(Targed: 2008/09)**

8.5 **Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol**

8.5.1 Bydd y Coleg yn darparu ffurflenni a deunyddiau esboniadol ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

8.5.2 Yn y categorïau canlynol bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân:

Ffurflenni cais swyddi staff
Taflen gwybodaeth gyffredinol swyddi staff
Polisi Cyfleoedd Cyfartal a Chydraddoldeb Hiliol
Llythyrau dim swyddi gwag
Amodau penodi
Cytundebau cyflogaeth
Llythyrau cydnabod
Ffurflenni cais myfyrwyr
Ffurflenni ymrestru myfyrwyr
Llawlyfrau cyffredinol myfyrwyr

8.5.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bob tro y cyhoeddir ffurflenni a deunyddiau esboniadol Cymraeg a Saesneg ar wahân, cân nhw eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd gydag argaeledd cyfartal yn y ddwy iaith, a neges yn cadarnhau argaeledd yn yr iaith arall.

8.5.4 Bydd y Coleg yn cadw cronfa ddata o gwsmeriaid Cymraeg, ac yn cychwyn gohebiaeth yn ddwyieithog â'r rhai nad yw eu dewis iaith yn hysbys.

8.6 **Hysbysiadau i'r Wasg**

8.6.1 Er mwyn manteisio ar yr adnoddau presennol i'r eithaf, caiff datganiadau i'r wasg Gymraeg eu rhyddhau yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig, tra caiff datganiadau i'r wasg ddi-Gymraeg eu rhyddhau yn ddwyieithog neu yn Saesneg yn unig. Caiff datganiadau sydd â pherthnasedd penodol i'r iaith Gymraeg eu targedu at y cyfryngau Cymraeg a Saesneg yng Nghymru

8.7 Deunydd Cyhoeddusrwydd

8.7.1 Fe ystyrir trefniadau'r uchod yn ôl eu teilyngdod yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn 8.6.1.

8.8 Ymgyrchoedd Hysbysebu a Deunydd Arddangos

8.8.1 Fe ystyrir trefniadau'r uchod yn ôl eu teilyngdod yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn 8.6.1.

8.9 Ymgyrchoedd Marchnata Uniongyrchol

8.9.1 Fe ystyrir trefniadau'r uchod yn ôl eu teilyngdod yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn 8.6.1.

8.10 Ymateb i Weithgareddau Cyhoeddusrwydd

8.10.1 Bydd dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Coleg yng Nghymru yn galluogi cysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Coleg yn rhyddhau enwau cyswllt at y pwrpas hwn.

8.11 Hysbysiadau Swyddogol a Recriwtio

8.11.1 Bydd hysbysiadau recriwtio staff yn ddwyieithog bob tro yr ystyrir y Gymraeg yn ddymunol, pa un ai ydyn nhw'n cael eu hysbysebu yn y cyfryngau Cymraeg ai peidio. Bydd hysbysiadau recriwtio staff i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn Gymraeg yn unig (gyda throednodyn yn Saesneg) a chaiff y rheini lle nad ystyrir bod y Gymraeg yn angenrheidiol fod yn Saesneg yn unig.

8.11.2 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yr hysbysiadau yn 8.11.1 uchod yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

9. Galluogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg

9.1 Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser y bydd y Coleg yn gallu darparu ei wasanaethau yn Gymraeg i safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i gynllunio adnoddau dynol. Bydd y strategaeth hon yn galluogi'r Coleg i gadw trosolwg ar ei sgiliau ieithyddol, ei anghenion, a'i adnoddau, a chydlynu gweithgareddau hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau sy'n dilyn yn ffurfio rhan o'r strategaeth honno:

9.1.1 Bydd y Coleg yn cynnal arolwg o sgiliau ieithyddol ei staff. Wrth wneud hynny, bydd yn canfod y gweithleoedd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, a'r

rhai lle mae'n ddymunol, i nodi lefel y rhuglder a fynnir ym mhob achos, a ffurfio disgrifiadau tîm a swydd ddisgrifiadau o ganlyniad. **(Targed: 2008/09)**

9.1.2 Bydd y Coleg hefyd yn ffurfio Pwyllgor Gwaith Cymraeg i nodi faint o wasanaethau a chysiau y gellir eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg **(Targed: 2008/09)**

9.2 **Dysgu Cymraeg**

9.2.1 Bydd y Coleg yn cefnogi aelodau o staff sydd yn dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg drwy:

- a) Ganfod ac annog staff sydd yn dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg
- b) Dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â chysiau Cymraeg yn y Coleg i'r holl staff
- c) Darparu cyrsiau Cymraeg yn rhad ac am ddim ac o fewn oriau gwaith lle y penderfynir bod hyn yn un o ofynion hanfodol y swydd.
- ch) Codi ymwybyddiaeth staff o gyrsiau drwy aelodau'r Gweithgor Dwyieithrwydd a Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg **(Targed: 2008/09)**

9.2.2 Bydd y Coleg yn defnyddio'r Safonau Iaith Cenedlaethol fel ffordd o sefydlu a chanfod lefel iaith staff sy'n siarad Cymraeg a staff sy'n dysgu'r Gymraeg, gyda'r bwriad o achredu aelodau o staff gyda chymhwyster yn dangos eu gallu ieithyddol. Bydd y Coleg hefyd yn darparu ei hyfforddiant mewnol ei hun, a fydd yn gysylltiedig â maes penodol aelodau'r staff **(Targed: 2009/10)**

9.3 **Recriwtio**

9.3.1 Bydd y Coleg yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, a'r rhai lle mae'n ddymunol. Rhoddir blaenoriaeth i'r swyddi hynny sydd â'r cysylltiad mwyaf â'r cyhoedd. **(Targed: 2009/10)**

9.3.2 Bydd y Coleg yn cyhoeddi gofynion ieithyddol swyddi 9.3.1 uchod mewn hysbysebion recriwtio, gan gynnwys y safon a fynnir ym mhob achos. Pe bai siaradwr di-Gymraeg yn cael ei benodi i swydd lle ystyrir y Gymraeg yn hanfodol, bydd ar yr amod bod y deiliad yn dysgu'r iaith hyd at safon a gytunwyd erbyn amser a gytunwyd, gyda chefnogaeth lwyr y Coleg. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer swyddi sydd eisiau sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'r swydd ddisgrifiad penodol, yn cael ei ddrafftio yn y fath fodd fel y gellir dynodi gofynion ieithyddol pob swydd yn glir, yn unol â mesur 9.1.

(Targed: 2009/10)

9.3.3 Pan fydd y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer swydd, fe ddynodir hyn yn glir yn hysbyseb a manylion y swydd. Os bydd prinder darpar ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith mewn unrhyw faes penodol, bydd y Coleg yn hysbysebu'r swydd a datgan yn yr hysbyseb y croesewir ceisiadau gan siaradwyr di-Gymraeg ar yr amod pendant, os penodir siaradwr/wraig di-Gymraeg, y bydd yn dysgu'r Gymraeg hyd at y safon a fynnir i lenwi'r swydd, ac

yn gwneud hynny o fewn cyfnod penodol. Ymdrinnir â phob trefniant o'r fath fel partneriaeth deg ac adeiladol rhwng y cyflogwr a'r cyflogedig, gyda'r cyflogwr yntau yn darparu anogaeth gadarn a chefnogaeth ymarferol i'r gweithiwr, a'r gweithiwr yn ei dro yn gwneud ymdrech deg i ennill y sgiliau angenrheidiol.

Drwy weithredu fel hyn, bydd y Coleg yn trin sgiliau ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil broffesiynol arall a fyynnir i lenwi cyfrifoldebau swydd, yn amodol ar adolygiad o fewn cyfnod arbennig. Felly bydd yn rhaid parchu a gweithredu'r amod gwaith hwn yr un mor llym ag unrhyw amod gwaith arall ar gyfer y swydd, a bydd yn rhaid i reolwr y gweithiwr adolygu'r safon a gyrhaeddir erbyn diwedd y cyfnod penodedig yn dilyn y penodiad. **(Targed: 2009/10)**

9.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

9.4.1 Bydd y Coleg yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r arolwg ym mharagraff 9.1 uchod, a sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am recriwtio a datblygu staff yn gweithredu rhaglen i ddiwallu'r angen hwnnw. Gall y rhain gynnwys amgylchiadau amrywiol o ddysgu sgiliau cyfathrebu wyneb-yn-wyneb ar gyfer derbynfeydd a.y.b. hyd at y sgiliau sydd eu hangen i drafod amgylchiadau personol myfyrwyr unigol. **(Targed: 2009/10)**

9.4.2 Bydd y Coleg yn monitro nifer y staff Cymraeg sydd eu hangen ac yn gweithredu os bydd y nifer yn disgyn yn is na'r lefel angenrheidiol. **(Targed: 2009/10)**

10. Trefniadau Gweinyddol ar gyfer Hwyluso'r Cynllun

10.1 Awdurdod

Bydd y Coleg yn sicrhau y cymeradwyir y trefniadau a nodir yn y Cynllun hwn ar y lefel uchaf, a'u bod yn dwyn holl awdurdod y Coleg.

10.2 Cyfrifoldeb

Y Prifathro Cynorthwyol a nodir fydd y gyfrifol am weithredu'r Cynllun hwn ar ran y Coleg a bydd y Grŵp Dwyieithrwydd yn argymhell unrhyw weithredu i'r Coleg ei ystyried gan y Tîm Rheoli Strategaeth.

10.3 Cyfarwyddiadau ac Arweiniad

10.3.1 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei staff yn gyfarwydd â'r Cynllun, yn ogystal â'r cyfrifoldebau sy'n ffurfio rhan o'i weithredu, drwy ddarparu cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig i staff drwy sesiynau briffio'r staff.

10.3.2 Bydd y Coleg yn ymgorffori swyddogaethau gweinyddol a berthyn i'r Cynllun Iaith Gymraeg i mewn i'w ddulliau gweinyddu safonol, gan gynnwys manylebau rhaglenni cyfrifiadurol sy'n newydd neu wedi'u hadnewyddu. Lle na ellir addasu

systemau cyfrifiadurol cyfredol, bydd y Coleg yn ystyried systemau cost effeithiol eraill.

10.3.3 Lle bynnag y bydd eisiau gwaith cyfieithu allanol, bydd y Coleg yn defnyddio cyfieithwyr sydd â chymwysterau dilys, neu asiantaethau cyfieithu cydnabyddedig.

11. Trefniadau Trydydd Parti

11.1 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Coleg yn gweithio ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill.

11.2 Pan fydd y Coleg yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

11.3.1 Pan fydd y Coleg yn ymuno â phartneriaeth y mae unrhyw gorff arall yn ei harwain, bydd cyfraniad y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd y Coleg yn annog partion eraill i gydymffurfio.

11.4 Pan fydd y Coleg yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu yn gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Coleg yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

11.5 Pan fydd y Coleg yn ffurfio neu yn ymuno â phartneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu Polisiâu Iaith neu eu dulliau o weithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Coleg yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r partneriaid eraill.

11.6 O bosibl, caiff gwasanaethau amrywiol a ddarperir ar ran y Coleg eu gweithredu gan sefydliadau eraill megis contractwyr, ymgynghorwyr, asiantaethau, cwmnïau ac unigolion. Bydd pob cytundeb a threfniant ar gyfer sefydliadau allanol o'r fath i ymgymryd â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ei ran yn cydymffurfio yn llawn â thelerau a gofynion y Cynllun hwn.

11.7 Bydd y prif swyddog sy'n gyfrifol am y Cynllun yn goruchwyllo ac yn hwyluso gweithrediad yr ymrwymadau hyn drwy:

11.7.1 Ddarparu dulliau gweithredu ysgrifenedig ar gyfer staff i ddelio ag asiantau a chontractwyr, a phrosesau i sicrhau bod staff yn delio â hwy yn briodol.

11.7.2 Rhestru'r gofynion ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau neu fenthyciadau.

- 11.7.3 Monitro gweithrediad y Cynllun gan asiantau a chontractwyr.
- 11.7.4 Annog y contractwyr hynny sydd â'u Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain i weithredu agweddau perthnasol.
- 11.7.5 Sicrhau adroddiadau cyson ar berfformiad gan gontractwyr ac asiantau.

12. Adolygu Gweithredu'r Cynllun

- 12.1 Bydd y Coleg yn paratoi adroddiadau cynnydd mewnol ynglŷn â gweithrediad y Cynllun a'u cyflwyno i'r uwch-reolwyr bob tymor.
- 12.2 Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn cyflawni'r nodau canlynol:
 - 12.2.1 Mesur a yw'r Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun;
 - 12.2.2 Mesur a reolir y Cynllun yn gywir;
 - 12.2.3 Dadansoddi ei berfformiad ar lefel adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb;
 - 12.2.4 Asesu ac ystyried themâu allweddol wrth weithredu'r cynllun gan gynnwys datblygiad cyfrwng Cymraeg/dwyieithog y cwricwlwm;
 - 12.2.5 Canfod unrhyw wendidau sylfaenol a sefydlu cynllun gweithredu, a fydd yn cynnwys amserlen i ddelio â hwy. Anfonir copi o hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 12.3. Yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun bydd y Coleg yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn asesu ac yn gwerthuso'r perfformiad gweithredu'r Cynllun ers y dechrau. Bydd yr adroddiad hwn yn: darparu golwg gyffredinol a dadansoddiad thematig o gydymffurfio a pherfformiad dros dair blynedd gyntaf y Cynllun, o ddau safbwynt – cyflwyno gwasanaethau a rheoli Cynllun; ac amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd ganlynol, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig i weithredu'r mesurau yn y cynllun.

Bryd hynny, bydd y Coleg yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

- 12.4 Bydd y Coleg yn adolygu gweithredu'r Cynllun yn barhaus drwy'r Grŵp Dwyieithrwydd. Archwilir pob agwedd o'r Cynllun.
- 12.5 Bydd y coleg yn monitro barn siaradwyr Cymraeg, a siaradwyr di-Gymraeg pan fo'n berthnasol, yn ogystal â monitro nifer y cwynion a dderbynnir.
(Targed: 2009/10)
- 12.6 Bydd y Coleg yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ynglŷn â sut i wella'r Cynllun.

12.7 Targedau Gweithredu'r Cynllun

- 12.7.1 Er bod pob agwedd o'r Cynllun wedi'u hamserlennu, mae'r canlynol yn cynrychioli'r prif dargedau yr anelir atynt dros y tair blynedd academaidd nesaf:

2008/09

Cyflawni arolwg cynhwysfawr o hyfedredd staff yn yr iaith Gymraeg gyda golwg ar sefydlu cynllun datblygu ar gyfer achredu a gwybodaeth i'r cyhoedd.

12.8 Cymharu Perfformiad yn erbyn y Safonau

- 12.8.1 Bydd adroddiad blynyddol y Coleg ar y Cynllun yn cymharu ei berfformiad yn erbyn y safonau a gynhwysir yn y Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys manylion ystadegol am yr ohebiaeth Gymraeg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a chynnydd y cynllun datblygu staff. Fe roddir cynnwys llawn yr adroddiad blynyddol ar wefan y Coleg.

12.9 Manylion Cyswllt

Bydd y Prifathro Cynorthwyol a nodir yn monitro'r Cynllun yn barhaus ac yn arolygu gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, a bydd i'r swyddogaeth fonitro honno strwythur pendant. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Mr Hywel Vaughan
Campws Nantgarw
Heol yr Odyn, Parc Nantgarw, Caerdydd. CF15 7QX
E-bost: h.vaughan@morgannwg.ac.uk
01443 663566

13. Sicrhau Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

- 13.1 Bydd y Coleg yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg ymhlith y cyhoedd er mwyn sicrhau, ar y naill law, bod y cyhoedd a myfyrwyr a ddaw i gysylltiad â'r Coleg yn ymwybodol o'i wasanaethau a darpariaethau cyfrwng Cymraeg ac, ar y llaw arall, bod gweithlu, asiantau a chontractwyr y Coleg yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â gofynion y Cynllun.

13.2 Bydd y Coleg yn mabwysiadu'r dulliau canlynol o gyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg:

13.2.1 Posteri a thafenni yn hysbysebu gweithgareddau'r Coleg i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Iaith Gymraeg

13.2.2 Datganiadau ac erthyglau i'r wasg a chyfryngau eraill

13.2.3 Dosbarthu crynodebau electronig/copïau caled o'r Cynllun i staff gweinyddol ac academiaidd fel ei gilydd

13.2.4 Dosbarthu copïau o'r Cynllun i sefydliadau ac unigolion eraill sydd â diddordeb yn narpariaeth Gymraeg y Coleg

13.2.5 Rhoi'r Cynllun ar wefan y Coleg

14. Cwynion

14.1 Dylid cyfeirio unrhyw gwynion ynglŷn â gweithrediad y Cynllun at y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwricwlwm ac Ansawdd. Ymdrinnir â hwy yn unol â gweithdrefnau cwynion cyffredinol y Coleg

CYNLLUN IAITH GYMRAEG - CYNLLUN GWEITHREDU

CYF	GWEITHRED	CYFRIFOLDEB	DYDDIAD TARGED
3.4	1. Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun gyda staff	Rheolwyr Adrannau/Datblygu Staff	Cyflawnwyd (08/09) ac yn parhau
3.5	2. Cymhwyso'r cynllun i fentrau newydd.	Y Pwyllgor Gwaith	Parhaus
4.1	3. Cynnal arolwg staff	Adnoddau Dynol	Cyflawnwyd 09
4.2	4. Nodi mewn cyhoeddiadau argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg	Marchnata	I gael ei weithredu
4.4	5. Darparu gwasanaethau a chynyddu sgiliau staff	Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg	Yn digwydd yn barhaus
4.8	6. Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Prifathrawon Cynorthwyol a Rheolwyr Maes Cwricwlwm	Yn ddibynol ar y galw a'r adnoddau, ond i'w adolygu'n rheolaidd
4.9	7. Cynnig elfennau cwrw cyfrwng Cymraeg	Prifathrawon Cynorthwyol a Rheolwyr Maes Cwricwlwm	I'w adolygu yn y broses flynyddol o gynllunio cwricwlwm
4.10	8. Gweithio ar y cyd â chyrrff allanol	Y Tîm Rheoli Strategaeth	Aelod o Sgiliaith a grŵp Colegau AB De Ddwyrain Cymru
4.11	9. Cymhwyso cyfleoedd cyfartal i'r cynllun	Pwyllgor Cyfle Cyfartal	Cael ei fonitro gan y grŵp staff
4.12	10. Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau Cymraeg	Gwasanaethau Myfyrwyr/Uned Llywodraethu	Wedi ei gyflawni'n rhannol yn ystod sesiynau i fyfyrwyr yn ystod yr wythnos gyflwyno (Medi 09)
5.2	11. Darparu safonau iechydol cyfartal	Y Tîm Rheoli Strategaeth	Gweithio tuag ato drwy'r grŵp staff a'r TRhS (SMT)
5.3	12. Gosod safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg	Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg	
6.1.2	13. Ymateb yn Gymraeg i lythyrau yn Gymraeg	Rheolwyr Adrannau	Yn digwydd eisoes
6.1.3	14. Sicrhau amser ymateb cyfartal	Rheolwyr	Yn amodol bod cyfieithydd ar gael
6.1.4	15. Ymateb ysgrifenedig i sgwrs Gymraeg	Rheolwyr	Heb ei gyflawni hyd yma
6.1.5	16. Llythyru yn Gymraeg lle bo dymuniad	Rheolwyr	Yn digwydd eisoes
6.1.6	17. Cynhyrchu llythyrau safonol ddwyieithog	Rheolwyr	Heb ei weithredu'n eang (09/10)
6.1.7	18. Cymhwyso safonau llythyru i e-bost	Rheolwyr	Yn digwydd eisoes
6.1.8	19. Creu cronfa ddata o gysylltiadau Cymraeg	Datblygu Busnes	Heb ei weithredu hyd yma
6.1.9	20. Cychwyn cyfathrebu yn ddwyieithog	Gwasanaethau Campws	Cyflawnwyd yn ddibynol ar sgiliau a hyder yr unigolion
6.2.1	21. Ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog	Gwasanaethau Campws	Hyfforddiant "Iaith Ar Waith" i staff rheng flaen Medi 09
6.2.1	22. Ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog	Gwasanaethau Campws	Gweler uchod ar gyfer staff rheng flaen
6.2.2	23. Cynnig dewis i siaradwyr Cymraeg ar y ffôn	Gwasanaethau Campws	Gweler uchod
6.2.3	25. Rhestru staff dwyieithog ar gyfer galwadau ffôn	Gwasanaethau Campws	Heb ei weithredu hyd yma(09/10)
6.2.4	26. Cynhyrchu negeseuon ateb dwyieithog	Gwasanaethau Campws	Heb ei weithredu hyd yma (09/10)
6.3.1	27. Cynnal cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog	Uned Trefn Lywodraethol	Heb ei weithredu hyd yma (09/10)
6.3.2	28. Estyn gwahoddiadau cyfarfodydd yn ddwyieithog	Uned Trefn Lywodraethol	Heb ei gyflawni hyd yma (09/10)
6.4.2	30. Cynnig dewis iaith mewn cyfarfod preifat	Gwasanaethau Campws	Heb ei weithredu
6.5.1	31. Cynnig dewis iaith ar uchelseinydd neu gyswllt fideo.	Rheolwyr	Heb ei weithredu
6.5.2	32. Ychwanegu tudalennau Cymraeg i'r wefan	Marchnata	Medi 09
7.1.1	33. Darparu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog	Marchnata	09/10

7.1.2	34. Darparu deunyddiau safonol dwyieithog	Marchnata	09/10
7.2.1	35. Cynhyrchu arwyddion newydd yn ddwyieithog	Stadau	Arolwg a newidiadau wedi eu cwblhau yn 08/09
7.2.2/3	36. Rhoi amlygrwydd cyfartal ar arwyddion newydd.	Stadau	Cyflawnwyd
7.2.4	37. Sicrhau sillafu cywir ar arwyddion newydd.	Stadau	Cyflawnwyd
7.3.1	38. Cynhyrchu arwyddion allanol yn ddwyieithog	Stadau	Cyflawnwyd
8.1	39. Cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol yn ddwyieithog	Marchnata/ Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Cyflawnwyd
8.2	40. Priso dogfennau Cymraeg/Saesneg yn gyfartal	Marchnata/Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Cyflawnwyd
8.3	41. Darparu cyfarwyddiadau ynglŷn â chyhoeddi	Marchnata/ Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Cyflawnwyd
8.4	42. Darparu deunyddiau printiedig yn ddwyieithog	Marchnata/ Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Cyflawnwyd â'r rhai a ddetholwyd (09/10)
8.5	43. Darparu ffurflenni a deunydd esboniadol	Marchnata/ Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Cyflawnwyd â'r rhai a ddetholwyd (09/10)
8.5.3	44. Sicrhau argaeledd cyfartal i ddeunyddiau	Marchnata/ Gwasanaethau i'r Dysgwyr	Ar gael drwy ofyn amdanyn nhw
8.5.4	45. Nodi siaradwyr Cymraeg ar gronfa ddata	Marchnata/Datblygu Busnes	Cyflawnwyd
8.5.4	46. Cychwyn cyfathrebiaeth yn ddwyieithog	Gwasanaethau Myfyrrwyr/Marchnata/ Datblygu Busnes	Yn ddibynnol ar sgiliau a hyder yr unigolion
8.6.1	47. Rhyddhau datganiadau i'r wasg cyfrwng Cymraeg	Marchnata	Heb ei weithredu (09/10)
8.7	48 Deunyddiau Cyhoeddusrwydd yn Gymraeg	Marchnata	Cyflawnwyd â'r rhai a ddewiswyd (09/10)
8.8	49. Deunydd hysbysebu	Marchnata	Cyflawnwyd â'r rhai a ddewiswyd (09/10)
8.9	50. Marchnata uniongyrchol	Marchnata	Pan fernir bod hynny'n addas
8.10	51. Ymatebion i gyhoeddusrwydd	Marchnata	Os gofynnir amdano
8.11	52. Recriwtio staff yn unol â'r cynllun	Adnoddau Dynol	Cyflawnwyd
8.11.1	53. Sicrhau cydraddoldeb ar hysbysiadau dwyieithog	Adnoddau Dynol	I'w weithredu yn 09/10
9.1	54. Arolwg o sgiliau Cymraeg staff	Adnoddau Dynol	Cyflawnwyd 09
9.1.2	55. Sefydlu Gweithgor Cymraeg	Brenig Davies	Cyflawnwyd ac yn weithredol
9.2.1	56. Cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Adnoddau Dynol	Cyflawnwyd ac yn barhaus
9.2.2	57. Achredu sgiliau ieithyddol staff	Adnoddau Dynol	Hyfforddiant mewnol yn cael eu hyrwyddo'n gyson
9.3.1	58. Nodi swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg	Adnoddau Dynol	Gweithredwyd
9.3.2	59. Nodi anghenion ieithyddol swyddi	Adnoddau Dynol	Gweithredwyd
9.3.3	60. Amlinellu amodau 'Cymraeg yn hanfodol'	Adnoddau Dynol	Gweithredwyd
9.4.1	61. Aseu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol	Datblygu Busnes	Os gofynnir amdano
9.4.2	62. Monitro rhifau staff sy'n siaradwyr Cymraeg	Datblygu Busnes	I'w weithredu yn 09/10
10.1	63. Sicrhau awdurdod y Cynllun	Y Tîm Rheoli Strategaeth	Cyflawnwyd ac yn barhaus
10.3.1	64. Darparu sesiynau briffio ar gyfer staff	Hywel Vaughan ac Adnoddau Dynol	Cyflawnwyd
10.3.2	65. Integreiddio gweinyddu sy'n berthnasol i'r cynllun.	Rheolwyr Adrannau	Heb ei Gyflawni (09/10)
10.3.3	66. Defnyddio cyfieithwyr allanol cydnabyddedig	Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg	Cyflawnwyd
11	67. Sicrhau cydymffurfriad partneriaid	Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg/Rheolwyr	Cyflawnwyd
12	68. Monitro barn a chwynion y cyhoedd	Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg/Gwasanaethau Campws	Gweithredwyd